**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 11

## RHYDDHAD BONDIAU BUDDSODDI CYLLID ARALL

### RHAN 3

### AMODAU AR GYFER GWEITHREDU RHYDDHADAU ETC.

*Amod 1*

6 Amod 1 yw bod un person (“A”) a pherson arall (“B”) yn ymrwymo i drefniadau—

(a) y mae A yn trosglwyddo buddiant cymwys mewn tir i B (“y trafodiad cyntaf”) oddi tanynt, a

(b) y mae A ac B yn cytuno oddi tanynt, pan fo B yn peidio â dal y buddiant fel y crybwyllir ym mharagraff 7(b), y bydd B yn trosglwyddo’r buddiant i A.